# Dyfarnu £20 miliwn i chwe phrosiect sy'n cysylltu pobl â threftadaeth naturiol

10/07/2025



School children visit the Birmingham Botanical Garden glasshouses. Credit: Irina Mackie.

O Sir Benfro yng Nghymru i Ogledd Swydd Lanark yn Yr Alban, mae ein rownd ddiweddaraf o grantiau'n hyrwyddo mynediad at fannau gwyrdd ar garreg drws cymunedau.

Nid yn unig y mae treftadaeth naturiol ffyniannus yn dda i'r amgylchedd, mae mynd allan ym myd natur hefyd yn gwella iechyd meddwl pobl. Y fantais ychwanegol yw, pan fyddwn yn fforio ein mannau gwyrdd lleol ac yn cymryd rhan mewn prosiectau byd natur, rydym yn meithrin cysylltiadau â'n cymuned hefyd.

Bydd y prosiectau ysbrydoledig a ariannwyd gennym yn ein cyfarfodydd pwyllgor ym mis Mehefin nid yn unig yn gwarchod yr amgylchedd ac yn achub treftadaeth, maent hefyd yn darparu cyfleoedd i bobl ddod at ei gilydd, gofalu am natur lle maen nhw'n byw a dysgu sgiliau newydd.

> “Mae pob un o’r prosiectau ysbrydoledig hyn... yn gweithio i hyrwyddo manteision lles lleoedd gwyrdd hanfodol i adfywio a meithrin dyfodol gwydn i bobl a’n hamgylchedd naturiol.””

*Eilish McGuinness, Prif Weithredwr, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

# Mynnwch gip ar y prosiectau diweddaraf rydym wedi'u hariannu

## Nurturing Natural Connections, Gogledd Swydd Lanark

Rydym wedi dyfarnu £2.6m i Ymddiriedolaeth Natur Yr Alban i reoli mwy na 330 hectar o goetir brodorol, plannu dros 2,000 o goed a gwella dolydd blodau gwyllt a dyfrffyrdd yn Cumbernauld.  Yn y broses, bydd y prosiect partneriaeth pum mlynedd hwn yn rhannu manteision lles mannau gwyrdd trefol gyda dros 6,000 o aelodau'r gymuned.



Nurturing Natural Connections. Credyd: Natalie Dunn.

Meddai Tracy Lambert, Rheolwr Prosiect Cumbernauld Living Landscape: “Er bod Cumbernauld yn gartref i fywyd gwyllt anhygoel, mae llawer ohono mewn cyflwr gwael ac nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o’r harddwch sydd ar eu carreg drws. Ers dros 10 mlynedd, rydym wedi gweithio ochr yn ochr â chymunedau lleol i adfer ein mannau gwyrdd, ac rydym yn gyffrous i ddechrau ein pennod nesaf gyda Nurturing Natural Connections.”

## Birmingham Botanical Gardens

Yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, rydym wedi dyfarnu £9 miliwn i gael y gymuned i gymryd rhan yn y gwaith o adfer t? gwydr rhestredig Gradd II* yr Ardd Fotaneg ac ailarddangos ei chasgliad byw o dros 30,000 o blanhigion.

Bydd y prosiect yn gwella mynediad i'r gerddi a'r casgliadau, ac mae'n disgwyl cynnwys dros 22,000 o bobl drwy ddigwyddiadau, gweithdai a chyfleoedd gwirfoddoli, yn ogystal â thrwy ystod o adnoddau ar-lein.



Credyd: Birmingham Botanical Gardens.

Meddai Sue Beardsmore, Cadeirydd Birmingham Botanical Gardens: "Wrth i ni agosáu at ein daucanmlwyddiant, gallwn nawr sicrhau bod modd i bawb ymchwilio, rhannu a mwynhau Birmingham Botanical Gardens, y Casgliad Byw unigryw a threftadaeth diriaethol ac anniriaethol y 'gofod gwyrdd gwyrthiol' hwn am y 200 mlynedd nesaf."

## Cysylltiadau Tirwedd: Gogledd y Pennines, Swydd Durham

Rydym wedi dyfarnu £654,000 mewn arian datblygu cyn grant cyflwyno posibl o hyd at £9.35m i ganiatáu i Dirwedd Genedlaethol Gogledd y Pennines – Geoparc Byd-eang UNESCO – ddatblygu cynlluniau ar gyfer menter Cysylltiadau Tirwedd hir dymor.

Bydd y prosiect yn ailgysylltu cynefinoedd pwysig ac yn cefnogi 250 o ffermwyr i ehangu arferion sy'n llesol i fyd natur a hybu cynaladwyedd eu busnesau.

Bydd rhan o'n hariannu'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cynllun grantiau bach i annog cymunedau lleol i ymgysylltu â'r ffermydd – am y tro cyntaf mewn rhai achosion.


Cysylltiadau Tirwedd: Gogledd y Pennines, Swydd Durham. Credyd: Joanne Coates.

Meddai Chris Woodley-Stewart, Cyfarwyddwr partneriaeth Tirwedd Genedlaethol Gogledd y Pennines: “Drwy weithio ar y cyd â grwpiau o ffermwyr, nid yn unig yr ydym yn cynyddu effaith ffermio gwerth natur uchel ar raddfa’r dirwedd, rydym hefyd yn rhannu sgiliau a phrofiad i ddatblygu sector ffermio cryfach a mwy cydnerth.”

## Cysylltu cymunedau â mannau gwyrdd

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Mae pob un o'r prosiectau ysbrydoledig hyn yn dangos ymrwymiad i gefnogi mwy o gynhwysiad, amrywiaeth a mynediad at fyd natur, ac mae pob un yn gweithio i hyrwyddo manteision lles mannau gwyrdd hanfodol i adfywio a meithrin dyfodol gwydn dros bobl a'n hamgylchedd naturiol.”

Gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad i £20 miliwn, ymysg y prosiectau eraill yn y rownd ddiweddaraf hon o ddyfarniadau sy'n cysylltu pobl â natur ac yn diogelu treftadaeth adeiledig, mae:

- **Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, Sir Benfro:** £2.2m i wella hygyrchedd adeilad 30 oed, ei wneud yn ynni-effeithlon a chreu cyfleoedd i ymgysylltu â chynulleidfa ehangach.

- **Woodoaks Farm, Swydd Hertford**: £1.8m i drwsio ac ymestyn yr Ysgubor Ddu rhestredig Gradd II o'r 16eg ganrif, gan ei thrawsnewid yn hyb newydd i'r gymuned.

- **The Food Museum, Suffolk**: £3.9m i adfer tri adeilad hanesyddol, a fydd yn helpu'r amgueddfa i ddenu mwy o ymwelwyr. Bydd hefyd yn creu partneriaethau â chymunedau lleol i sicrhau bod ei rhaglen yn canolbwyntio ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw.

## Cael arian ar gyfer eich prosiect

Os oes gennych ddiddordeb mewn helpu pobl i gysylltu â threftadaeth naturiol, mynnwch ysbrydoliaeth trwy bori drwy ein prosiectau tirwedd, parciau a natur.

## ...ddordeb hefyd mewn ...



Jan Hogarth from the SCAMP Landscape Connections team and our Director for Scotland, Caroline Clark, in Powfoot with young 'Coastodians', Emily, Shane and Jack.

### ...dscape Connections project



Volunteers planting trees. Photo: Saoirse Clohessy.

### Growing community connections with natural heritage



Mae Scottish Canals wedi derbyn £3.7m i greu canolfan sgiliau newydd ar lannau Camlas Forth a Clyde yn Falkirk. Credit: Kirsty Anderson.

## Dyfarnu £43miliwn i helpu cymunedau i rannu sgiliau a dysgu gyda'i gilydd